OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 3047 (Cy.322)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*19 Rhagfyr 2011*
Yn dod i rym - -	*9 Ionawr 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddi(**1**) a chyda chydsyniad y Trysorlys yn unol â pharagraff 1(7) o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2011 a daw i rym ar 9 Ionawr 2012.

Cyfalaf Cychwynnol Ymddiriedolaethau GIG

2. Cyfalaf cychwynnol Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru(**2**) yw £7,489,000.

Lesley Griffiths
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

19 Rhagfyr 2011

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) Sefydlwyd gan O.S. 2009/2058 (Cy.177) yn unol ag adran 18(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraffau 5 a 7 o Atodlen 3 iddi.